

Crynodeb Gweithredol o Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2025: Y sefyllfa o ran chwarae yn Sir Ddinbych

1. Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

“Gwneud Sir Ddinbych yn Gymuned sy’n Croesawu Chwarae”

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn deall pwysigrwydd y rôl ymhle mae Chwarae yn cyfrannu at les a datblygiad plant a phobl ifanc. Mae’n rhan sylfaenol a chreiddiol o ddatblygiad iach - nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at gyfleoedd chwarae, a chyfranogi ynddynt, fel y cydnabyddir ym:

1. Mholisi Chwarae Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) “Mae chwarae’n cwmpasu ymddygiad plant sy’n cael ei ddewis o’u gwirfodd, ei arwain yn bersonol a’i gymell yn reddfol”. Hynny yw, dyma mae plant yn ei wneud pan maent yn dilyn eu syniadau eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
2. Nod Craidd 4 o Saith Nod Craidd Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy’n nodi: “Mae gan bob plentyn a phobl ifanc fynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.”
3. Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac sydd wedi’u diffinio ymhellach o fewn Sylw Cyffredinol 17, sy’n nodi: “Mae partïon yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a derbyn cyfleoedd hamdden, i ymgysylltu â gweithgareddau chwarae a hamdden sy’n addas i oedran y plentyn, ac i gyfranogi’n rhydd mewn bywyd diwylliannol a’r celfyddydau.”

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod bod effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu’n sylweddol ar eu cyfle i chwarae’n rhydd, ac wedi arwain at dlodi o ran cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd cyffredinol.

Mae’r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn darparu cyfleoedd chwarae ar draws y sir drwy’r flwyddyn. Mae’n gweithio gyda gwasanaethau yn yr awdurdod lleol a sefydliadau trydydd parti i annog a hyrwyddo buddion chwarae er mwyn darparu cyfleoedd chwarae ystyrion ar draws y sir. Mae’r gwasanaeth yn cynyddu’r cyfleoedd chwarae drwy Sir Ddinbych.

Caiff chwarae ei arwain gan blant, ei ddewis yn rhydd, ei gyfeirio’n bersonol, ac sy’n cael ei gymell a’i berfformio’n gynhenid. Dyma’r hyn maent eisiau ei wneud a’r hyn maent yn dewis ei wneud wrth gael y rhyddid, annibyniaeth, amser a lle i bennu eu hymddygiad eu hunain.

“Mae chwarae’n cwmpasu ymddygiad plant sy’n cael ei ddewis o’u gwirfodd, ei arwain yn bersonol a’i gymell yn reddfol. Nid yw’n cael ei wneud ar gyfer unrhyw nod neu wobr allanol, ac mae’n rhan sylfaenol a chreiddiol o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas maent yn byw ynddi.” (Polisi Chwarae LIC 2002)

Mae dewis o'u gwirfodd yn golygu mai'r plant eu hunain sy'n dewis pryd, sut a beth i chwarae. Nid yw chwarae'n rhan o raglen benodedig ac nid oes unrhyw gamau sydd angen eu cwblhau.

Mae cael ei arwain yn bersonol yn golygu mai'r plant eu hunain sy'n rheoli cynnwys eu chwarae a nhw sy'n penderfynu'r rheolau a'r rolau fydd ganddynt wrth chwarae.

Mae cymell yn reddfodol yn golygu bod chwarae yn digwydd er ei fwyn ei hun, ac nid yw er mwyn cael unrhyw wob, tystysgrif neu statws. Chwarae yw'r broses y mae plant yn ymwneud â hi yn hytrach na'r cynnyrch terfynol.

Mae chwarae yn mynd y tu hwnt i oedran, gallu, ethnigrwydd, sefyllfa gymdeithasol, crefydd a rhyw. Gall ddigwydd mewn llawer o wahanol ffurfiau ac mae ganddo nifer o wahanol nodweddion. Mae'r cwrmpas a'r potensial hwn mewn chwarae yn ei wneud yn gynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

Yr Angen i Chwarae -

"Chwarae yw'r broses ddysgu elfennol y mae'r ddynoliaeth wedi datblygu trwyddi. Mae plant yn amlygu awydd greddfodol i chwarae ac mae'n rhan hollbwysig o'u hymddygiad. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at oroesiad esblygiadol a datblygiadol ein rhywogaeth. Mae plant yn defnyddio chwarae yn yr amgylchedd naturiol i ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo gydag eraill. Dyma'r broses ddysgu a thyfu, ac fel y cyfryw mae popeth a ddysgir trwy chwarae o fudd i'r plentyn." (Polisi Chwarae LIC 2002)

Mae chwarae'n hanfodol i les corfforol ac emosiynol pob plentyn a phobl ifanc ac mae'n ganolog i fywyd iach plentyn. Mae'n effeithio ar ddatblygiad eu corff a'u hymennydd. Pan roddir cyfle i blant chwarae maent yn fwy tebygol o fod yn gorfforol egniol trwy redeg, neidio, dawnsio, dringo, cloddio, codi, gwrthio neu dynnu. Trwy chwarae mae plant yn profi ystod eang o emosiynau gan gynnwys rhwystredigaeth, penderfyniad, cyflawniad, siom, hyder a chynnwrf, a thrwy ymarfer, gallant ddysgu sut i reoli'r rhain. Trwy chwarae gyda'u cyfoedion mae plant hefyd yn datblygu eu sgiliau gymdeithasol ac yn meithrin cyfeillgarwch cryf, sy'n arwain at deimladau cadarnhaol o hapusrwydd a pherthyn.

Mae plant yn mynd ati'n fwriadol i chwilio am ansicrwydd corfforol ac emosiynol wrth chwarae. O'r crud mae plant yn chwilfrydig a holgar ac mae'r awydd i archwilio'r anhysbys ac arbroti â'u hamgylchoedd wedi'i wreiddio'n ddwfn ynddynt. Trwy gymryd risg a chael profiadau chwarae anturus gall plant herio eu hunain, profi cyfyngiadau'r amgylchedd o'u cwrmpas, datblygu sgiliau datrys problemau a chanfod dulliau creadigol o ymateb i sefyllfaoedd newydd. Yn y pen draw mae chwarae yn dylanwadu ar allu'r plentyn i fod yn addasadwy ac yn wydn, i ymdopi â digwyddiadau sy'n peri straen ac felly mae'n eu galluogi i gefnogi eu lles eu hunain.

Mae chwarae yn rhan anhepgor o blentyndod, ac os nad yw plant yn cael mynediad am ddim at yr ystod ehangaf o gyfleoedd chwarae sy'n cael ei ddewis o wirfodd, ei arwain yn bersonol a'i gymell yn reddfodol, caiff hynny effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn.

O fewn Cyngor Sir Ddinbych, rydym yn gwerthfawrogi'r plant a'r bobl ifanc yn ein cymunedau ac yn eu hystyried fel dinasyddion cyfartal, ac rydym yn rhoi ein cefnogaeth i gynnal eu hawl i chwarae, os ydym ni'n cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae, neu drwy sicrhau bod cyfyngiadau ar chwarae'n cael eu hosgoi lle bynnag y bo modd. Oherwydd effeithiau cymdeithas fodern, rydym yn ymroddedig i ddatblygu mwy o fannau chwarae cydadferol o safon uchel; fodd bynnag rydym hefyd yn cydnabod na ddylai'r rhyddid i chwarae gael ei gyfyngu i'r mannau hyn, ond y dylid, yn hytrach, ei hyrwyddo ledled cymuned y plentyn.

Rydym yn cydnabod bod chwarae'n thema drawsbynciol ac yn annog pob budd-ddeiliad, sefydliad a chymuned i ddeall y rôl sydd ganddynt i ddiogelu cyfleoedd digonol i chwarae o fewn cymunedau plant, fel rhan o'r ddyletswydd statudol.

2. Methodoleg

Mae'r Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol wedi'i gynnal a'i gwblhau gan y Swyddog Arweiniol Cyfleoedd Chwarae Digonol a'r Tîm Ceidwaid Chwarae, sy'n dod o dan Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae, Cydlynnydd Chwarae Hygyrch, Ceidwad Chwarae, Ceidwaid Chwarae Cynorthwyol a chronfa o Geidwaid Chwarae Cynorthwyol llanw.

Mae'r asesiad wedi cynnwys cyfraniadau gan yr adrannau canlynol yn yr Awdurdod Lleol:

Addysg
Gwasanaethau Plant
Cludiant
Gwasanaethau Ieuenctid
Teuluoedd yn Gyntaf
Dechrau'n Deg
Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Y Tîm Datblygu Gofal Plant
Canolfannau Plant Integredig
Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol
Cynllunio
Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Tîm Adsefydlu Ffoaduriaid
Gwasanaeth Digartrefedd
Gwasanaethau Stryd
Tai
Gwasanaethau Cefn Gwlad
Priffyrdd
Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyflwynwyd Gweithdy Cyfleoedd Chwarae Digonol gan Marianne Mannello - Chwarae Cymru ym mis Ionawr 2025. Gwahoddwyd yr holl bartneriaid a budd-ddeiliaid sydd wedi'u henwi i ddod i'r gweithdy, a roddodd gyfle i wella eu dealltwriaeth o Gyfleoedd Chwarae Digonol a sut mae'n berthnasol i'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflwyno a sut y gallant gyfrannu at yr asesiad. Cafodd cyfanswm o 36 o bobl wahoddiad i'r gweithdy, a 19 o bobl yn bresennol. Cymerodd y sawl a

oedd yn bresennol ran mewn amrywiol weithgareddau a gwaith grŵp i helpu i wella eu dealltwriaeth o'r asesiad cyfleoedd chwarae digonol.

Cawsom gyfraniadau a chefnogaeth gan y partneriaid canlynol:

- Ysgolion cynradd
- Ysgolion uwchradd
- Menter Iaith Dinbych
- Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig
- Gwasanaeth Celfyddydau Sir Ddinbych
- Yr Urdd
- STAND
- Cyngor Cymuned Dyserth
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Clwb Pêl-droed Prestatyn
- Canolfan Ni Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych
- Streetgames
- Morrisons
- Tesco
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Clybiau Plant Cymru

Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn gweithio gyda gwasanaethau o fewn yr awdurdod lleol i nodi a darparu cyfleoedd chwarae mewn meysydd allweddol o angen ledled Sir Ddinbych.

Mae Teuluoedd yn gyntaf yn darparu grant i gefnogi cyfleoedd Chwarae a Hamdden i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth i gael mynediad at gyfleoedd. Rheolir hyn o fewn y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae.

Mae Cyngor Cymuned Dyserth yn darparu cyllid ar gyfer sesiwn chwarae mynediad agored ar ôl ysgol bob wythnos yn ystod y tymor, sy'n darparu cyfleoedd i bob plentyn ac unigolyn ifanc yn Nyserth.

Mae'r asesiad yn tynnu sylw at gydweithio amlasiantaethol cadarnhaol ar draws adrannau a sefydliadau allanol, gan gynnwys Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Heddlu Gogledd Cymru, ysgolion lleol, a chynghorau cymuned. Mae'r partneriaethau hyn wedi galluogi dull mwy integredig o ddatblygu chwarae, er bod angen mwy o ymgysylltiad traws-sector i wella'r gefnogaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

3. Sut mae ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd wedi dylanwadu ar yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol

Mae ymgynghori drwy'r flwyddyn yn parhau gyda phlant a phobl ifanc sy'n mynychu sesiynau mynediad agored y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae. Defnyddir ffurflenni ymgynghori ar-lein a phapur i gasglu gwybodaeth.

Mae 31 o rieni wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad arolwg ar-lein ar ôl “Beth am Chwarae Allan”

Ymgynghoriad parhaus yn digwydd ar ffurf trafodaethau yn ystod sesiynau mynediad agored yn ystod y tymor a’r gwyliau ysgol.

Cwblhaodd 531 o ddisgyblion Blwyddyn 5 sy’n mynychu ysgol yn Sir Ddinbych holiadur ar-lein am eu hamser chwarae presennol.

Cwblhaodd 226 o ddisgyblion Blwyddyn 8 yr un holiadur hefyd. Mae’r data hwn wedi’i gymharu â data blwyddyn 5 a gasglwyd yn 2022, gan fod disgyblion blwyddyn 8 presennol ym mlwyddyn 5 yn 2022, pan gynhaliwyd yr asesiad cyfleoedd chwarae digonol diwethaf.

Gofynnwyd y cwestiynau am safbwyntiau cyfredol pobl ifanc a’u cyfleoedd i chwarae. Roedd yna groestoriad da o ymatebion o ysgolion gwledig, ysgolion Cymraeg ac ysgolion arbennig. Bydd y data a ddarperir o’r holiaduron yn cael ei ddefnyddio gan y gwasanaeth Ceidwaid Chwarae i wella cyfleoedd chwarae mewn cymunedau lleol.

Anfonwyd cwestiynau yn y Gymraeg a’r Saesneg ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

1.Faint yw dy oed?
How old are you?

2.Beth yw cod post dy gartref?
What is your postcode at home?

3.Pa ysgol wyt ti’n mynd iddi?
Which school do you go to?

4.Pa mor aml wyt ti’n mynd allan i chwarae neu yn ‘cymdeithasu’ gyda ffrindiau?
How often do you go out to play or hang out with friends?

5.Oes gen ti ddigon o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau?
Do you have enough time for playing or hanging out with friends?

6.Pan nad wyt ti yn yr ysgol, ym mha fath o lefydd wyt ti’n chwarae neu’n cymdeithasu?
When you’re not in school, what types of places do you play or hang out in?

7.Wyt ti’n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?
Can you play in all of the places you would like to?

8.Pa mor dda ydi’r llefydd yr wyt ti’n chwarae?
How good are the places you play in?

9.Pa mor ddiogel wyt ti’n teimlo pan wyt ti’n chwarae neu’n cymdeithasu?
How safe do you feel when playing or hanging out?

10. Sut mae'r oedolion yn ymddwyn pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu?
Ticia un ateb yn unig
What are grown-ups like when you're playing or hanging out?

11. Wyt ti'n cael chwarae allan ar ben dy hun neu gyda ffrindiau?
Are you allowed to play out on your own or with friends?

12. Sut wyt ti, fel arfer, yn cyrraedd y llefydd lle rwyd ti'n chwarae?
How do you usually get to places where you play?

13. Sut wyt ti'n teithio i'r ysgol fel arfer?
How do you usually get to school?

14. Ar y cyfan, pa mor dda ydi dy gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu?
Overall how good are your opportunities for playing and hanging out?

15. Beth sy'n dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu?
What's good about your area for playing and hanging out?

16. Beth sydd ddim yn dda am dy ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu ac sydd
angen ei wella?
What's not good about your area for playing and hanging out and needs to be made
better?

Ymgynghorwyd â 25 o ddisgyblion yn Ysgol Tir Morfa – Ysgol ADY yn Sir Ddinbych.
Gwnaed hyn ochr yn ochr â darparu cyfleoedd chwarae.

Gwnaed yr holiadur mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, Llyw-wyr
Lles Anabledd ac Ysgol Tir Morfa gan ddefnyddio System Gyfathrebu Cyfnewid
Lluniau (PECS), er mwyn gwneud yr holiadur yn fwy hygyrch.

Dyma rai o'r cwestiynau:

1. Wyt ti'n fachgen / merch / arall?
2. Ble wyt ti'n byw?
3. Wyt ti'n chwarae gyda dy ffrindiau?
4. Ble wyt ti'n chwarae?
5. Ble wyt ti eisiau chwarae?
6. Wyt ti'n cael chwarae?
7. Pwy sy'n mynd gyda ti?
8. Sut wyt ti'n cyrraedd yno?
9. Wyt ti'n chwarae tu allan?
10. Beth sy'n dy atal rhag chwarae tu allan?

Ffurfiodd y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae grwpiau ffocws mewn 9 ysgol ledled y
Sir hefyd i gael cipolwg mor llawn â phosibl ar safbwyntiau plant ar chwarae yn Sir
Ddinbych. Roedd cydbwysedd da o ysgolion o ardaloedd Gogledd a De'r sir. Roedd
pob grŵp yn cynnwys rhwng 8 a 25 o blant CA2 o ystod o gefndiroedd a grwpiau
blwyddyn. O ganlyniad, mae gennym ni bellach gyfanswm o 139 o blant sy'n rhan o

Grŵp Ffocws Chwarae Ysgol, sy'n eirioli dros eu hawl i chwarae yn eu hysgol. Fe wnaethon ni annog y plant i fynegi eu barn ar eu cyfleoedd presennol i chwarae ac unrhyw rwystrau maen nhw'n eu hwynebu. Gwnaethom hyn drwy annog trafodaeth agored a darparu rhai taflenni gwaith i'r plant ysgrifennu unrhyw wybodaeth arnynt.

Dechreuodd y grwpiau ffocws a oedd yn cymryd rhan gyda gêm fach i dorri'r garw, i helpu'r plant i deimlo'n fwy hamddenol ynglŷn â siarad â Cheidwaid Chwarae. Yna gofynnwyd i'r plant beth yw chwarae yn eu barn nhw a beth mae chwarae yn ei olygu iddyn nhw. Ysgrifennon nhw eu hatebion ar bapurau bach gludiog a gasglwyd ar y diwedd.

Cynhaliwyd 3 thrafodaeth ar wahân gyda'r Plant sef:

- **Amser chwarae - Pryd wyt ti'n chwarae?**
- **Llefydd i chwarae - Ble wyt ti'n chwarae?**
- **Caniatâd i chwarae - Pwy sy'n gadael i ti chwarae?**

Rhoddwyd taflenni gwaith i'r plant i gofnodi'r wybodaeth hon arnynt a defnyddion nhw siart troi hefyd i gofnodi fel grŵp. Cynorthwyodd y gweithgareddau hyn y trafodaethau a oedd yn digwydd rhwng y tîm chwarae a'r plant. Roedd athrawon yn bresennol mewn rhai o'r ysgolion, a gymerodd ran yn y trafodaethau hefyd. Roedd plant hefyd yn trafod chwarae ymhlith ei gilydd a chofnodwyd y sgwrs ar siartiau troi.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- **Mae'r rhan fwyaf o blant yn fodlon â'u cyfleoedd chwarae, fodd bynnag;**
- **Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cael profiad negyddol o chwarae allan oherwydd aelodau blin o'r cyhoedd, fel arfer cymdogion.**
- **Hoffai llawer o blant fynd i'r traeth neu'r mynyddoedd i chwarae ond nid ydynt yn cael mynd heb oedolyn oherwydd pryderon diogelwch eu rhieni.**
- **Mae llawer o blant yn mynychu gweithgareddau strwythuredig y rhan fwyaf o nosweithiau fel timau chwaraeon, gwersi dawn, gwersi cerddoriaeth, gan gyfyngu felly ar yr amser sydd ganddyn nhw i chwarae.**
- **Mae llawer o blant yn mynychu clybiau ar ôl ysgol ac nid ydyn nhw'n mwynhau chwarae gan nad ydyn nhw gyda'u ffrindiau.**
- **Mae gan y rhan fwyaf o blant erddi lle gallant chwarae a mwynhau llawer o wahanol weithgareddau yn eu cartref ond ni chaniateir iddynt fynd allan i chwarae ar y stryd ar eu pennau eu hunain. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod eu rhieni'n poeni am ddieithriaid a cheir yn mynd yn rhy gyflym.**

- **Roedd pobl ifanc yn rhwystyr mawr iddyn nhw chwarae allan oherwydd eu bod nhw'n treulio amser mewn gangiau ac yn "dweud pethau cas"**
- **Mae gormod o fawr cŵn neu sbwriel yn golygu na allant chwarae yn yr ardaloedd glaswelltog.**
- **Mae llawer o blant yn chwarae y tu allan i'w cymuned leol fel canolfannau hamdden, canolfannau chwarae meddal, disgos sgelfrio sydd i gyd wedi'u lleoli o fewn y gymuned ehangach.**
- **Siaradodd plant mewn ardaloedd gwledig am ffermwyr a oedd yn cael effaith ar eu chwarae am nad oeddent yn caniatáu iddynt chwarae ar eu tir nac yn agos ato.**
- **Roedd llawer o'r gweithgareddau yr oedd y plant yn siarad amdanynt yn costio arian.**
- **Ni ellir mwynhau llawer o weithgareddau yr arferai oedolion eu gwneud pan oeddent yn blant oherwydd technoleg fodern fel camerâu ar ddrysau blaen. "Knock a door run" / "Dingle Ditch"**
- **Mae gwydr yn y parc oherwydd bod pobl ifanc yn loetran o gwmpas yn yfed ac yna'n malu poteli.**

Ar ôl trafod y problemau hyn gyda'r plant, gofynnwyd iddyn nhw beth fyddai'r atebion, a dywedon nhw:

- **Rhieni i fod yn llai amddiffynnol a gadael iddyn nhw wneud mwy ar eu pennau eu hunain.**
- **Ysgolion yn gadael iddyn nhw chwarae, cael amseroedd chwarae hirach a pheidio â thynnu amser chwarae oddi arnyd nhw am gamymddwyn yn y dosbarth.**
- **Cael mwy o adnoddau chwarae yn yr ysgol i wneud amseroedd chwarae yn fwy o hwyl.**
- **Cael mwy o sesiynau Ceidwaid Chwarae (Chwarae Mynediad Agored). Hoffen nhw i'r Ceidwaid Chwarae fod yno bob dydd, o fewn pellter cerdded i'r ysgol neu ar dir yr ysgol.**
- **Cael mwy o sesiynau mewn parciau fel na fydd y plant hŷn yn dweud pethau cas wrthyn nhw a dim ofn mynd i'r parc**
- **Perchnogion cŵn i godi baw cŵn neu gael mwy o ardaloedd glaswelltog lle na chaniateir i gŵn fynd neu gadw cŵn ar dennyn bob amser. Wardeiniaid cŵn i roi dirwy i bobl nad ydyn nhw'n codi baw cŵn a'r cyngor i osod mwy o finiau a biniau baw cŵn. Bagiau baw cŵn am ddim i bobl. Poster neu arwyddion yn annog pobl i godi baw cŵn.**

- **Mwy o weithgareddau am ddim i bawb gael cymryd rhan. Diwrnodau blasu am ddim mewn canolfannau hamdden, ninja tag, laser tag**
- **Sesiynau chwarae i ferched. Dydy'r rhan fwyaf o ferched ddim yn hoffi ymuno â'r bechgyn a byddai'n well ganddynt rywbeth ar gyfer merched yn unig.**
- **Ffyrdd i fod yn llai prysur a cherbydau'n cadw at y terfynau cyflymder i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw groesi.**
- **Gwahardd camerâu ar ddrysau blaen!**
- **Canlyniadau llymach i unrhyw un a geir yn yfed yn ardal chwarae'r plant a'r Heddlu i wirio'r ardal yn rheolaidd. Glanhau'r parc a'r ardaloedd glaswelltog yn rheolaidd, gan gynnwys yr ardaloedd cudd y tu ôl i'r coed gan mai dyma lle maen nhw'n gwneud den.**

Gan fod y grwpiau ffocws bellach wedi'u ffurfio, bydd hyn yn llywio sut y gall y Tîm Chwarae a'r awdurdod lleol weithio i geisio chwalu neu ddileu rhai o'r rhwystrau drwy ddod o hyd i ffyrdd o roi'r atebion ar waith a nodi blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu Chwarae.

4. Gwneud y mwyaf o adnoddau

Mae'r awdurdod lleol a'r partneriaid yn defnyddio cyllidebau presennol i gefnogi cyfleoedd i chwarae ledled Sir Ddinbych mewn amrywiol ffyrdd strategol ac ymarferol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sawl adran a sefydliad i gyflwyno gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwarae ar y cyd gan ddefnyddio staff ac adnoddau a rennir. Nid oes cyllideb awdurdod lleol benodol ar gyfer chwarae. Ceir cyllid gan nifer o raglenni a gwasanaethau Llywodraeth Cymru, a brynir gan Gynghorau Tref a Chymuned ac ysgolion sy'n gweld amrywiol fentrau arian cyfatebol i sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael. Defnyddir cyllid gan:

- Elfen Gofal Plant a Chwarae o Grant Plant a Chymunedau
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Prosiect Gwyliu AWPOG Playworks

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid yn y blynyddoedd blaenorol ar gyfer rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, ond daeth y ffyrddau cyllid hyn i ben. Cafodd hyn effaith sylweddol ar lefel y cyfleoedd chwarae a ddarparwyd ledled y sir wrth i gynlluniau a gwasanaethau a ehangodd o ganlyniad gael eu torri'n llwyr neu wasanaethau gael eu lleihau'n sylweddol. Yn flaenorol, prynodd nifer o ysgolion y gwasanaeth Ceidwaid Chwarae i fodelu a chyflwyno sesiynau chwarae ac i'w defnyddio fel ymyriadau ar gyfer grwpiau wedi'u targedu o ddisgyblion, fel ffoaduriaid a chefnogi ymddygiad. Defnyddiodd y mwyafrif o ysgolion eu Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, oherwydd toriadau yn y gyllideb ar draws yr holl ysgolion a nifer o ysgolion mewn anawsterau ariannol, bu'n rhaid iddynt adolygu'r gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yr oeddent yn eu hariannu, a

arweiniodd at dorri rhaglen ysgolion y Ceidwaid Chwarae. Mae effaith hyn wedi bod yn adlewyrchu yn llais y plant wrth gwblhau'r Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol drwy arolwg blwyddyn 5, ymgynghoriadau â rhieni, athrawon a grwpiau ffocws yr ysgol. Mae ysgolion wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad digroeso yn ystod amseroedd chwarae ac mae plant wedi nodi bod yr amseroedd chwarae wedi'u cwtogi, nad oes adnoddau i chwarae gyda hwy ac nad ydynt yn hwyl.

Sefydlwyd Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'r awdurdod lleol gan ddefnyddio Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru drwy brynu 2 fan i ddarparu gwasanaeth chwarae peripatetig allan yn y cymunedau lleol ar draws Sir Ddinbych. Caiff staff y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae eu cyflogi ar y cyd drwy'r amrywiol grantiau a restrir uchod a thrwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda rhai Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu gwasanaeth chwarae parhaus yn eu hardal. Heb y cyllid gan Lywodraeth Cymru ni fyddai'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn gallu gweithredu, a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar lefel y cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn Sir Ddinbych. Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi'i hen sefydlu ac yn defnyddio adnoddau yn y gymuned, ac mae'r plant a'r bobl ifanc ledled Sir Ddinbych yn cydnabod y tîm fel rhan o'u hawl i chwarae.

Mae nifer o ganlyniadau sy'n dod i'r amlwg wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith i gwblhau'r Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol. Mae diffyg cyllid, diffyg cyfleoedd chwarae sy'n gysylltiedig ag ysgolion a darpariaeth ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion ychwanegol i gyd yn fylchau sy'n codi dro ar ôl tro drwy'r asesiad. Mae ffrydiau cyllid yn negeseuon allweddol ymhlith y rhan fwyaf o ddiffygion, gyda sawl ateb yr un fath ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg yn yr asesiad.

5. Monitro

Mae'r Rheolwr Gofal Plant a Datblygu Chwarae yn cymryd cyfrifoldeb strategol dros chwarae yn yr Awdurdod Lleol. Mae gweddill y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn cynnwys y canlynol:

- Cydlynnydd Chwarae Hygyrch
- Ceidwad Chwarae
- Ceidwaid Chwarae Cynorthwyol
- Ceidwaid Chwarae Cynorthwyol Llanw
- Cynorthwydd Gwyliau ar gyfer cefnogaeth un i un

Mae'r Cydlynnydd Chwarae Hygyrch yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Chwarae yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'r ddau yn cyflawni ar y cyd yn y ddwy sir drwy wneud cais am grantiau rhanbarthol ar y cyd. Swyddog Chwarae Conwy hefyd yw'r Arweinydd Chwarae enwebedig ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynrychioli arweinwyr chwarae ledled Gogledd Cymru. Mae'n codi unrhyw faterion cyfleoedd chwarae digonol ac yn eirioli dros chwarae ar ran y consortia.

Mae Cyfleoedd Chwarae Digonol a Gofal Plant Digonol yn cael eu monitro'n agos oherwydd y cyferbyniadau a'r rhyngweithiadau rhwng y ddau asesiad. Mae'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae yn cadeirio cyfarfodydd Fforwm Gofal Plant a Chwarae'r awdurdod lleol, sy'n cynnwys nifer o aelodau gweithredol, gan gynnwys:

- Cynllunio Strategol a Pherfformiad
- Sefydliadau CWLWM
- Iechyd y Cyhoedd
- Ysgolion Iach
- Y Tîm Datblygu Gofal Plant
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- AGC
- Dechrau'n Deg
- Addysg Gynnar
- Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae

Mae Cyfleoedd Chwarae Digonol yn eitem sefydlog ar y rhaglen, a darperir diweddariad ym mhob cyfarfod gydag adborth neu faterion a godwyd sy'n gysylltiedig â chwarae. Yna defnyddir y rhain i lywio cyfeiriad y ddarpariaeth chwarae, nodi unrhyw fylchau a dod o hyd i atebion a phenderfynu ar flaenoriaethau'r cynllun gweithredu chwarae. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis, gyda llawer yn bresennol. Un o ganlyniadau'r asesiad cyfleoedd chwarae digonol oedd ailystyried y cylch gorchwyl i sicrhau bod pob swyddog y mae ei ffrwd waith yn gysylltiedig â chyfleoedd chwarae digonol wedi'i gynnwys yn y grŵp.

6. Casgliad

Mae Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2025 yn rhoi gwerthusiad manwl o gyflwr presennol y ddarpariaeth chwarae i blant a phobl ifanc ledled Sir Ddinbych, fel sy'n ofynnol gan Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Llywodraeth Cymru. Dan arweiniad Dawn Anderson, Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae, mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdodau Lleol i gynnal hawl pob plentyn i chwarae.

Gwelodd Tueddiadau Poblogaeth a Chynhwysiant gynnydd cyson yn y boblogaeth, gyda thwf sylweddol yn y grŵp oedran 12–17 oed. Mae amrywiaeth hefyd wedi cynyddu, gyda mwy o blant yn siarad iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae'r Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol yn adlewyrchu darpariaeth well ar gyfer plant lleiafrifoedd ethnig, plant LHDTC+, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a phlant mewn llety dros dro. Fodd bynnag, er bod gwasanaethau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi anghenion plant anabl neu'r rhai ag anghenion ychwanegol, mae'n ymddangos bod rhai rhwystrau o ran mynediad o hyd. Mae plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig hefyd yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at ddarpariaeth.

Mae sesiynau chwarae mynediad agored a ddarperir gan y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth chwarae'r cyngor. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella darpariaeth gynhwysol a dwyieithog, mae angen ymdrechion pellach i ehangu darpariaeth mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd yr effeithir arnynt gan amddifadedd. Mae archwiliad o fannau chwarae wedi helpu i lywio cynlluniau ar gyfer offer ac amgylcheddau mwy cynhwysol a hygyrch.

Mae llais y plant wedi cael ystyriaeth gref ym mhob agwedd ar yr Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol. Mae plant ar draws y sir yn gwerthfawrogi'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae a'r sesiynau chwarae mynediad agored maen nhw'n eu darparu. Mae consensws cyffredinol bod y ffaith nad yw'r Ceidwaid Chwarae yn mynd i ysgolion yn golled, ac mae plant yn teimlo bod hyn wedi effeithio ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt yn ystod y diwrnod ysgol.

Un o'r canfyddiadau allweddol ym mhob mater oedd y gostyngiad mewn ffrydiau cyllid, neu mewn rhai achosion, eu colli'n llwyr. Mae hyn wedi effeithio ar gyfleoedd chwarae ers Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2022 lle'r oedd swm sylweddol o gyllid ar gael i bob gwasanaeth i gefnogi'r adferiad ar ôl y pandemig Covid. Nid oes ffrwd ariannu benodol gan awdurdodau lleol ar gyfer chwarae. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r cyllid sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer chwarae wedi bod ar gael oherwydd tanwariant cyllidebol arall, neu wedi bod ar gael i awdurdodau lleol yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol i gael effaith sylweddol. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i gyllid a phwysigrwydd chwarae gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu digon o gyfleoedd chwarae. Mae'r ffrydiau cyllid sydd ar waith ar hyn o bryd yn fach iawn.

Bydd y cynllun gweithredu a luniwyd o ganlyniad i'r asesiad hwn yn darparu ffordd ymlaen i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion ychwanegol, gwella cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ac yn ystod y diwrnod ysgol, codi ymwybyddiaeth o Gyfleoedd Chwarae Digonol ar raglenni gwaith swyddogion a sut y gallant chwarae eu rhan, ehangu'r cyfleoedd chwarae ymhellach ar draws mwy o gymunedau lleol yn Sir Ddinbych a gwella'r ardaloedd chwarae, gan eu gwneud yn fwy hygyrch a chynhwysol.

7. Dadansoddiad yn ôl Thema

Poblogaeth:

Mater A: Y nifer o blant mewn cysylltiad ag ystod oedran yn yr ardal

Mater B: Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd yn yr ardal

Mater D: A godir tâl am ddarpariaeth chwarae ac ymhle

Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

- Mae **28%** o blant blwyddyn 5 yn Sir Ddinbych **nad ydynt** yn chwarae allan gyda'u ffrindiau'n **rheolaidd**, a **7% byth** yn chwarae allan gyda ffrindiau.
- Mae **38%** o blant blwyddyn 5 nad ydynt yn credu bod unrhyw le i wella o ran eu cyfleoedd i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd ac mae **62%** yn dweud yr hoffent gael cyfleoedd gwell i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd, a **6%** eisiau gweld gwelliant sylweddol.
- Mae **31%** o blant blwyddyn 5 nad ydynt yn cael chwarae allan ar eu pennau eu hunain neu gyda ffrindiau.

Cryfderau

Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn darparu darpariaeth chwarae mynediad agored hygyrch am ddim ar draws y Sir mewn parciau, ysgolion a mannau cymunedol. Mae'r lleoliadau a ddewiswyd yn seiliedig ar ddata o'r Cyfrifiad a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae gan yr Awdurdod Lleol bolisi Cyfle Cyfartal trylwyr ac ategir hwnnw drwy gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2022-2027 yn egluro'r hyn y dymuna'r Cyngor ei gyflawni ar ran pobl a chymunedau Sir Ddinbych yn y pum mlynedd nesaf wrth greu'r "Sir Ddinbych a garem" ac mae'n sôn am holl weithgarwch y Cyngor ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o holl wasanaethau'r Cyngor.

Mae digwyddiadau Cymunedol am ddim yn rhoi mynediad am ddim i gymunedau i gyfleoedd chwarae, yn ogystal â chysylltiadau ag amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth. Un enghraifft allweddol yw Diwrnod Chwarae Cenedlaethol blyneddol y Rhyl, sy'n denu dros 3,000 o bobl bob blwyddyn. Mae'r digwyddiad yn cynnig amrywiaeth o brofiadau chwarae difyr i blant tra hefyd yn cefnogi teuluoedd drwy wybodaeth, canllawiau, a chyfeirio at sesiynau a digwyddiadau cymunedol eraill sydd ar gael.

Mae'r gwahanol wasanaethau ledled Sir Ddinbych yn cydweithio lle bynnag y bo modd, yn enwedig pan fydd gweithio gyda'i gilydd yn darparu mwy o fanteision i'r gymuned na gweithio ar eu pennau eu hunain.

Gwendidau

Gall plant mewn rhai ardaloedd gwledig gael trafferth cael mynediad at ddarpariaeth oherwydd cludiant a'r ffaith nad oes gan y tîm chwarae'r capasiti / cyllid yn yr ardaloedd hyn. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnal unrhyw safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Sir Ddinbych. Er bod yr Awdurdod Lleol yn dal i geisio dod o hyd i ffyrdd o ddatrys y sefyllfa, mae'r Cyngor yn cydnabod y caiff safleoedd dros dro eu sefydlu ar wahanol ddarnau o dir ledled y sir. Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y bydd unrhyw safleoedd y bwriedir eu darparu ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y dyfodol yn sicrhau y bodlonir anghenion chwarae.

Mae angen mwy o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau. Mae angen gweithio'n well mewn partneriaeth i nodi a chanfod mannau chwarae y mae angen eu haddasu neu eu gwella er mwyn darparu gwell hygyrchedd i blant anabl neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cyfleoedd

Cyfleoedd ariannu i ddarparu sesiynau yn yr ardaloedd gwledig ac i ddarparu cludiant er mwyn i blant o ardaloedd gwledig gael mynd i sesiynau chwarae. Bydd cydweithio cryfach rhwng partneriaid yn creu mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael mynediad at ddarpariaeth chwarae. Gall y dull ar y cyd hwn helpu i ehangu adnoddau, rhannu gwybodaeth, a gwella llwyddiant ceisiadau am gyllid yn y dyfodol ar gyfer digwyddiadau a sesiynau.

Bygythiadau

Gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid effeithio ymhellach ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Gallai ei gwneud hi'n anodd i'r awdurdod lleol gyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

Llefydd mae plant yn chwarae:

Mater C: Lle gall plant chwarae, yn cynnwys lle agored, ac unrhyw le arall

Mater F: Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio i hybu mynediad i chwarae

Mater I: Y graddau y mae polisïau addysg a chynlluniau datblygu lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant

Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

- Hoffai **57%** o blant blwyddyn 5 weld gwelliannau yn y mannau maen nhw'n chwarae ynddynt
- Mae **43%** o blant blwyddyn 5 yn hapus gyda'r lleoedd sydd ganddyn nhw i chwarae
- Gall **24%** o blant blwyddyn 5 chwarae ym **mhob un** o'r lleoedd o'u dewis.
- Mae'r rhan fwyaf o blant blwyddyn 5 fel arfer yn teimlo'n ddiogel pan maen nhw'n chwarae allan, a dywed **47%** o blant eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel **drwy'r** amser.
- Mae **2%** o blant yn dweud nad ydyn nhw **byth** yn teimlo'n ddiogel, gyda **7%** ddim yn chwarae allan o gwbl.
- Hoffai **62%** o blant blwyddyn 5 gael gwell cyfleoedd i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau, gyda **6%** eisiau gweld gwelliannau mawr.
- Mae **23%** o blant blwyddyn 5 yn gwneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau.
- Mae **52%** o blant blwyddyn 5 yn cael eu cludo i'r lleoedd maen nhw'n chwarae gan oedolyn, gyda **30%** yn mynd mewn car. Mae **47%** o blant blwyddyn 5 naill ai'n cerdded neu'n reidio beic ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau i'r lleoedd maen nhw'n chwarae.
- Mae'r rhan fwyaf o blant blwyddyn 5 fel arfer yn teimlo'n ddiogel pan maen nhw'n chwarae allan, a dywed **47%** o blant eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel **drwy'r** amser
- Mae **38%** o blant blwyddyn 5 o'r farn bod eu cyfleoedd i chwarae allan yn **wych** ac na ellid eu gwneud yn llawer gwell, ac mae **39%** o'r farn eu bod yn dda ond y gellid eu gwneud hyd yn oed yn well
- Mae **23%** o blant blwyddyn 5 o'r farn bod angen cyfleoedd gwell arnyn nhw i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd, a **6%** am weld gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.

Gofynnwyd i blant pa fathau o leoedd maen nhw'n chwarae ynddynt pan nad ydyn nhw yn yr ysgol, mae'r canlyniadau isod: Yn fy nhŷ neu yn nhŷ ffrind 18% Yn fy ngardd neu ardd ffrind 9% Ar y strydoedd ger fy nhŷ 7% Ar ardal laswellt leol 8% Mewn lle gyda gwrychoedd, coed a blodau 5% Mewn ardal chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer eraill 11% Mewn coedwig ger fy nhŷ 3% Ar gae pêl-droed ger fy nhŷ 5% Ar faes chwarae fy ysgol 5% Rhywle gyda dŵr neu dywod 4% Yn y parc sglefrio neu feiciau 6% Mewn canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden 3% Mewn clwb ieuenctid 1% Mewn clwb ar ôl ysgol 5% Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y lleoedd y mae plant yn chwarae rhwng 2025 a 2022 pan gynhaliwyd yr Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o blant yn chwarae yn eu tŷ eu hunain neu yn nhŷ ffrind yn 2022 (43%). Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i Covid, gyda mwy o blant yn dewis aros gartref.
Cryfderau Mae plant a phobl ifanc yn mentro ymhellach i gael mynediad at gyfleoedd chwarae nŵan nag yr oeddent 3 blynedd yn ôl.
Gwendidau Hoffai mwy na hanner y plant a'r bobl ifanc weld gwelliannau i'r mannau lle maen nhw'n chwarae. Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod Lleol broses ffurfiol ar gyfer asesu gwerth chwarae mannau chwarae. Mae plant yn teimlo nad yw amseroedd egwyl yn yr ysgol yn hwyliog neu nad oes ganddyn nhw lawer o adnoddau i chwarae â nhw.
Cyfleoedd

Datblygu proses asesu ffurfiol ar gyfer mannau chwarae lle gellir asesu eu gwerth chwarae. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae yn yr ysgol a diogelu amseroedd egwyl. Gwellu'r cyfleusterau sydd ar gael mewn mannau chwarae i ddarparu gwell hygyrchedd.

Bygythiadau

Gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid effeithio ymhellach ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Gallai ei gwneud hi'n anodd i'r awdurdod lleol gyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

Darpariaeth dan oruchwyliaeth:

Mater D: Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth

Mater G: Hyfforddiant Gwaith Chwarae a Datblygu'r Gweithlu

Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn cynnal ymgynghoriadau parhaus â phlant, pobl ifanc a rhieni ynghylch eu boddhad a'u profiadau chwarae.

Dywedodd llawer o blant eu bod eisiau i chwarae mynediad agored fod ar gael iddynt fwy nag unwaith yr wythnos.

Mae rhieni wedi dweud wrthym eu bod yn well ganddynt i'w plant fynychu darpariaeth dan oruchwyliaeth oherwydd rhai ffactorau fel dieithriaid, pobl ifanc hŷn o gwmpas, ysmegu, plant eraill.

Cryfderau

Mae Gwasanaeth y Ceidwaid Chwarae yn cynnig chwarae mynediad agored am ddim ar draws y sir i bob plentyn a pherson ifanc. Dewisir lleoliadau yn seiliedig ar yr angen yn yr ardal, a pha mor hygyrch yw'r gofod.

Mae Cyngor Tref Dyserth yn ariannu sesiwn chwarae wythnosol a gynhelir 39 wythnos y flwyddyn.

Darperir sesiynau chwarae mynediad agored wythnosol ar ôl y diwrnod ysgol yng Nghanolfan Plant Integredig y Dderwen yn y Rhyl, Dinbych, Prestatyn a Gallt Melyd.

Gwendidau

Cynghorau Tref a Chymuned ddim eisiau neu ddim yn gallu darparu cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae. Dim darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth yn yr ardaloedd gwledig, yn bennaf oherwydd diffyg cyllid.

Cyfleoedd

Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff drwy hyfforddiant gwaith chwarae i'w gyflwyno o fewn yr Awdurdod Lleol.

Cyfleoedd i eirioli dros chwarae i gynghorwyr tref a chymuned er mwyn cael mynediad agored i chwarae mewn mwy o leoliadau ledled y sir.

Ysgolion i agor eu tir ar gyfer chwarae y tu allan i amser ysgol.

Bygythiadau

Gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid effeithio ymhellach ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Gallai ei gwneud hi'n anodd i'r awdurdod lleol gyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:

Mater F: Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad i chwarae, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau

Mater G: Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae

Mater H: Lefel ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad

Mater I: Y graddau y mae polisiâu eraill Awdurdod Lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant

Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

- Mae **90%** o blant blwyddyn 5 yn dweud bod **y rhan fwyaf** o oedolion naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn iddyn nhw chwarae allan.
- Mae'r rhan fwyaf o blant blwyddyn 5 yn meddwl bod oedolion yn fodlon iddyn nhw chwarae allan, gyda dim ond **10%** yn dweud bod oedolion yn flin.
- Mae'r rhan fwyaf o blant blwyddyn 5 yn cael mynd allan i chwarae heb oedolyn, a **31%** byth yn cael mynd allan heb oedolyn
- Gall **24%** o blant blwyddyn 5 chwarae ym **mhob un** o'r lleoedd o'u dewis.
- Mae **76%** o blant blwyddyn 5 yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu chwarae ym mhob un o'r lleoedd yr hoffon nhw chwarae, gyda **6%** yn dweud nad ydyn nhw prin yn gallu chwarae yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffon nhw chwarae.

Cryfderau

Mae Cyngor Tref Dyserth yn ariannu sesiwn chwarae mynediad agored wythnosol a gynhelir 39 wythnos y flwyddyn yn ystod y tymor.

Mae Gwasanaeth y Ceidwaid Chwarae yn wasanaeth sefydledig a chydabyddedig, ac mae pob plentyn yn Sir Ddinbych yn teimlo gwerth a phwysigrwydd y sesiynau chwarae mynediad agored sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn amlwg o'r 20,000 a ddaeth i'r sesiynau yn 2024.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd hawl plant i chwarae ac mae'n frwd iawn am wella cyfleoedd chwarae ledled Sir Ddinbych.

Gwendidau

Mae gan gynghorau tref a chymuned ddiffyg dealltwriaeth o chwarae a'r manteision i'r plant a'r gymuned.

Nid yw pob adran yn deall bod eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae a dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Cyfleoedd

Cyfleoedd i eirioli i gynghorau tref a chymuned i alluogi mwy o gyllid ar gyfer chwarae mynediad agored mewn mwy o leoliadau o amgylch Sir Ddinbych. Hyrwyddo cyfleoedd i rieni i ganiatáu i blant gael mynediad at fwy o gyfleoedd chwarae.

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd chwarae digonol ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.

Bygythiadau

Gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid effeithio ymhellach ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Gallai ei gwneud hi'n anodd i'r awdurdod lleol gyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.